COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR Y CABINET AR RIANTA CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR, Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-0BONT AR OGWR CF31 4WB DDYDD MERCHER, 29 HYDREF 2025 AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd J Gebbie – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| E L P Caparros | P Davies | M J Evans | N Farr |
| GC Haines | JC Spanswick | | |

Presennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| F D Bletsoe | J E Pratt | T Thomas | A Wathan |
| AJ Williams | E D Winstanley | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Daniel Bolton | Rheolwr Grŵp, Gwasanaethau Darparwyr |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Raeanna Grainger | Rheolwr Grŵp, MASH, IAA a Diogelu |
| Mark Lewis | Rheolwr Grŵp – Gweithio Integredig |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol – y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes - y Gwasanaethau Democrataidd |
| David Wright | Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |

## 75. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr M Jones a H Williams |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Hydref 2025 |

**This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

## 76. Datganiadau o Fuddiannau

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Ni dderbyniwyd datganiadau o fuddiannau. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Hydref 2025 |

## 77. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Cabinet ar Rianta Corfforaethol dyddiedig 7 Mai 2025 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Hydref 2025 |

## 78. Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol 2024-2025

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles adroddiad oedd yn disgrifio’r gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025.<br><br>Mae'r adroddiadau'n egluro'r fframwaith deddfwriaethol sy'n llywodraethu'r gwaith a wneir gan y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol. Yn bennaf, rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol (SAA) oedd sicrhau bod cynllun gofal y plentyn yn addas ac yn ateb ei anghenion datblygol, ei fod yn herio unrhyw broblemau o ran oedi cyn cyflawni amcanion y cynllun gofal a/neu unrhyw broblemau oedi. Mae'r rôl yn rhoi pwyslais cryf ar sicrhau ansawdd a herio'r Awdurdod pan na fydd yn fodlon mewn meysydd gwneud penderfyniadau.<br><br>Mae'r SAA ym Mhen-y-bont ar Ogwr hefyd yn cadeirio Cynadleddau Amddiffyn Plant, ei rôl ef yw sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth a gweithdrefnau diogelu. Yn bwysicaf oll, rhaid i Wasanaeth y SAA sicrhau bod llais y plentyn yn ganolog wrth wneud penderfyniadau a bod y plentyn yn gwybod am ei hawliau a’i amgylchiadau.<br><br>Mae ffocws cryf ar ddata ansoddol yn yr Adroddiad Blynyddol a chyfraddau cydymffurfio ond hefyd prosesau sydd wedi cael eu cryfhau a sut mae'r gwasanaeth wedi cyflawni amcanion y cynllun blynyddol. |

| | |
|---|---|
| | Roedd y Cynllun Blynyddol wedi ei ddiweddaru i'w weld ar ddiwedd yr adroddiad ac roedd hwn yn tynnu sylw at y nodau ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf.<br><br>Roedd Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad, gyda'r Cynllun Gweithredu yn Atodiad 2.<br><br>Gofynnodd yr aelodau ychydig o gwestiynau ar yr adroddiad, fel a ganlyn:-<br><br>• Rhan o rôl y SAA yw herio Cynlluniau Gofal ac felly pan wneir heriau, sut maen nhw'n cael eu holrhain a'u monitro. Hefyd, sut bydd y gwelliannau a wneir yn cael eu bwydo'n ôl i'r Adran ac i ba raddau mae'r plentyn a theulu'r plentyn yn rhan o'r broses honno?<br><br>• O ran y Rhaglen Eiriol Ranbarthol, mae'n ymddangos bod y cyllid ar gyfer hyn yn dod i ben ym mis Mawrth 2026. Fydd cyllid pellach ar gyfer hyn yn parhau?<br><br>*Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai cyllid pellach ar gyfer y fenter hon yn dilyn diwedd mis Mawrth 2026*.<br><br>• Gyda golwg ar y rhaglen uchod, oes yna unrhyw dystiolaeth i awgrymu ei bod wedi cynorthwyo rhieni drwy eu hailgyfeirio oddi wrth yr angen am ymyrraeth statudol neu oddi wrth unrhyw weithdrefnau gofal neu amddiffyn plant ffurfiol?<br><br>• O ran Archwiliad Sicrwydd Ansawdd y SAA – Arolygon Rhieni, pa themâu sydd wedi dod i'r amlwg o'r rhain, yn dilyn ymgynghori â rhieni, ac yn y blaen?<br><br>Atebodd Rheolwr Grŵp, MASH, IAA a Diogelu y cwestiynau uchod er budd yr aelodau.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod Pwyllgor y Cabinet ar Rianta Corfforaethol yn nodi'r Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gweithredu. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Hydref 2025 |

**79. Gweithredu Cynllun Taliadau Cymhelliant yn Seiliedig ar Atebolrwydd Treth y Cyngor a Chynnydd Chwyddiannol mewn Lwfansau a Ffioedd ar gyfer Gofalwyr Maeth a Gofalwyr Perthnasau yng Nghyngor Bwrdeistref**

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

**Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP)**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Roedd yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles, yn gofyn am gymeradwyaeth Pwyllgor y Cabinet ar Rianta Corfforaethol i weithredu Cynllun Taliadau Cymhelliant yn seiliedig ar atebolrwydd treth gyngor ar gyfer gofalwyr maeth, gofalwyr perthnasau a gwarcheidwaid arbennig ym Mhen-y-bont ar Ogwr, fel mesur i wella recriwtio a chadw. Mae'r Cynllun Taliadau Cymhelliant yn cyd-fynd â newidiadau deddfwriaethol diweddar ac yn cefnogi'r strategaeth leol i wella digonolrwydd a sefydlogrwydd lleoliadau i blant.<br><br>At hynny, cadarnhaodd fod yr adroddiad yn dangos cynlluniau i gymhwyso cynnydd chwyddiannol o 2.6% (Mynegai Prisiau Defnyddwyr Mawrth 2025) i ffioedd a lwfans gofalwyr maeth a gofalwyr perthnasau i gyd o fis Ebrill 2025. Bydd y cynnydd hwn yn sicrhau bod taliadau'n cadw i fyny â chostau byw ac yn ffurfio rhan o'r rhaglen ehangach i gryfhau'r cynnig cyffredinol i ofalwyr.<br><br>Dangosodd modelu ariannol, er bod y Cynllun Taliadau Cymhelliant yn cynrychioli pwysau cost, y dylid ei ystyried yn fesur buddsoddi-i-arbed. Bydd cynyddu nifer y gofalwyr maeth mewnol yn lleihau'r angen am leoliadau IFA a phreswyl cost uwch, gan sicrhau osgoi costau hirdymor a chefnogi canlyniadau gwell i blant.<br><br>Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cododd yr aelodau nifer o bwyntiau ac ymholiadau, gan gynnwys rhai cwestiynau, ac roedd enghreifftiau ohonynt yn cynnwys:-<br><br>• Nododd yr Arweinydd y byddai'r rhai sy'n gymwys o dan y Cynllun Taliadau Cymhelliant yn talu ffi i ddechrau, ond yna'n gallu hawlio hon yn ôl. Gofynnodd pam na ellid hawlio'r gostyngiad o'r cychwyn heb i unigolyn wneud y taliad cychwynnol.<br>• Gofynnodd aelod a oedd yr awdurdod lleol wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol yn ystyried cefnogaeth a gwelliannau anariannol i ofalwyr maeth.<br>• Er bod y cysyniad Buddsoddi i Arbed yn ymddangos yn gadarn, oes na fecanwaith i olrhain effeithiau'r cynllun, h.y. drwy ddarparu data'r canlyniadau<br>• Hyd at ba derfyn oedran y mae'r budd-dal yn berthnasol?<br>• Er bod y 2.6% o ffioedd a lwfansau wedi cael ei nodi, o ble mae'r cynnydd hwn yn dod, er enghraifft Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ynteu Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI)?<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet yn cymeradwyo'r adroddiad a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella cadw gofalwyr, annog trosglwyddiadau IFA a chynorthwyo mwy o blant i aros mewn lleoliadau lleol, mewnol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Hydref 2025 |

**This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

| | |
|---|---|
| | |

## 80. Gwasanaeth Eiriol Plant Rhanbarthol

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles adroddiad oedd yn rhoi crynodeb o’r Ddarpariaeth Gwasanaeth Blynyddol ar gyfer 2024-25 o eiriolaeth statudol i blant a phobl ifanc.<br><br>Cafodd y Dull Cenedlaethol o Eiriolaeth Statudol (NASA) ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2017.<br><br>Y nod gyffredinol oedd darparu dull cyson a safonol o ddarparu gwasanaethau eiriol a sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc y mae ei gynllun gofal wedi'i ategu gan ganllawiau a rheoliadau statudol yn cael mynediad at hyn.<br><br>Dywedai’r adroddiad fod Tros Gynnal Plant (TGP) yn darparu gwasanaethau eiriol ledled rhanbarth Cwm Taf Morganwg. Roeddent yn ddarparwr sefydledig i’r diben hwn ledled Cymru.<br><br>Roedd tystiolaeth bod y darparwr gwasanaeth yn gweithio fel partner rhanbarthol rhagweithiol ac arloesol wrth ddarparu eiriolaeth statudol, ochr yn ochr â gwasanaethau eraill sy'n helpu plant, pobl ifanc neu eu teuluoedd.<br><br>Ynghlwm wrth yr adroddiad fel Atodiad, roedd Adroddiad Blynyddol Eiriolaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morganwg (CTM) 2024-2025.<br><br>Nododd aelod fod cryn dipyn o ystadegau a data arall wedi eu cynnwys yn yr adroddiad, gwybodaeth oedd yn adlewyrchu rhwymedigaethau statudol y Cyngor fel awdurdod lleol. Gofynnodd a oedd gennym dystiolaeth bod 'llais y plentyn wedi cael ei glywed' ac wedi arwain at weithredu.<br><br>Dywedodd Rheolwr Grŵp, MASH, IAA a Diogelu fod rhywfaint o dystiolaeth o hyn yn yr adroddiad a'r wybodaeth ategol, ond ychwanegodd hefyd y gallai fod o fudd pe bai modd cynnwys enghreifftiau o rai astudiaethau achos mewn adroddiadau ar y pwnc hwn yn y dyfodol.<br><br>Ychwanegodd Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod prif gydrannau'r adroddiad, er mwyn sicrhau rhai canlyniadau oedd yn seiliedig ar dystiolaeth, yn dibynnu ar gwmpasu meysydd fel sicrhau ansawdd, rhai newidiadau sylweddol, materion eiriol eu hunain ynghyd â derbyn cwynion a chanmoliaeth i’r gwasanaeth i hysbysu'r Gwasanaeth Eiriol Plant Rhanbarthol am y ffordd y dylai |

| | |
|---|---|
| | Gwasanaethau Cymdeithasol Plant fod yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc, er mwyn gwella canlyniadau ymhellach yn y dyfodol.<br><br>Dywedodd aelod hefyd y byddai o fudd i aelodau pe gallent dderbyn rhagor o fanylion am gost y gwasanaeth contract hwn sy'n cwmpasu 3 awdurdod lleol, y tu allan i'r cyfarfod.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet wedi ystyried a nodi'r ddau Adroddiad Blynyddol mewn perthynas â'r gwasanaeth eiriol rhanbarthol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Hydref 2025 |

**81. Archwiliad Gwella Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Wasanaethau Plant a Theuluoedd Mehefin 2025**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Disgrifiai'r adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles, ganfyddiadau ymweliad Gwiriad Gwella (IC) Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) â gwasanaethau plant a theuluoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) ym mis Mehefin 2025. Canolbwyntiai'r gwiriad gwella ar ddeall pa mor dda yr oedd y Cyngor wedi symud ymlaen â'r argymhellion ar gyfer gwella oedd wedi cael eu nodi mewn Arolygiad Gwerthuso Perfformiad a Gwiriad Gwella a gynhaliwyd ym mis Mai a mis Rhagfyr 2022 ac Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) dan arweiniad AGC a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2023.<br><br>Canfu'r Gwiriad Gwella fod arweinwyr CBSP wedi rhoi blaenoriaeth i wasanaethau plant a theuluoedd yn gyson, er mwyn cefnogi gwelliannau cynaliadwy ac amserol. Roedd hyn, yn ei dro, wedi cryfhau ansawdd a chyflawniad swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr Awdurdod yn sylweddol.<br><br>Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn i Bwyllgor y Cabinet ystyried yr adroddiad a chymeradwyo'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig, oedd wedi cael ei ddatblygu er mwyn ymateb i'r argymhellion oedd yn weddill oedd yn parhau heb eu datrys, a châi'r Cynllun Gweithredu hefyd ei alinio â Chynllun Strategol 3 blynedd y Cyngor ar gyfer Plant a Theuluoedd. Câi gweithredu'r Cynllun Gweithredu yn llawn ei fonitro drwy'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol, oedd yn cael ei gadeirio gan yr Arweinydd, ac y gwahoddwyd pob arweinydd grŵp i fod yn rhan ohono.<br><br>Cyfeiriodd aelod at Egwyddor 2 y Cynllun Gweithredu lle ceid sôn am yr angen i wella'r Strategaeth Gyfathrebu, fel bod staff a phartneriaid yn glir ynghylch rhai gwasanaethau oedd yn cael eu darparu. |

| | |
|---|---|
| | Gofynnodd hefyd, pa dystiolaeth oedd gennym i gadarnhau bod unrhyw ddryswch y cyfeiriwyd ato mewn perthynas â 'llwybrau atgyfeirio' wedi cael ei gywiro.<br><br>Cadarnhaodd Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod yna ddau lwybr atgyfeirio wedi bod o’r blaen, ond bod hyn bellach wedi newid i un mynediad atgyfeirio 'drws blaen', ar gyfer cefnogaeth i blant a theuluoedd. Ychwanegodd, fodd bynnag, fod rhai heriau yn dal i fod o ran ble roedd ysgolion yn cael mynediad at gefnogaeth, h.y. ym meysydd addysg, y blynyddoedd cynnar a phobl ifanc. Roedd Bwrdd Comisiynu Cymorth i Deuluoedd hefyd wedi cael ei gyflwyno i wneud atgyfeiriadau ac yn y blaen yn haws eu deall.<br><br>Nodwyd bod yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles ar 25 Medi 2025 a'i fod wedi cael derbyniad da. Er budd yr Aelodau, rhoddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles rywfaint o adborth llafar ynghylch rhai o'r argymhellion a wnaeth y Pwyllgor o ganlyniad i'r Gwiriad Gwella a'r Cynllun Gweithredu a bod y rhain wrthi’n cael eu hystyried.<br><br>Gofynnodd aelod i'r Swyddogion a oeddent yn hyderus y byddai'r holl derfynau amser a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu yn cael eu cyrraedd, a’u hateb oedd eu bod yn hyderus y caent eu cyrraedd.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod Pwyllgor y Cabinet ar Rianta Corfforaethol wedi ystyried yr adroddiad ar ganfyddiadau AGC ac wedi cymeradwyo’r Cynllun Gweithredu cysylltiedig. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Hydref 2025 |

## 82. Arolygiad y Gwasanaeth Maethu gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) Mehefin 2025

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Diben yr adroddiad hwn a gyflwynwyd gan Reolwr Grŵp y Gwasanaethau Darparwyr oedd cyflwyno i Bwyllgor y Cabinet ar Rianta Corfforaethol adroddiad arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn dilyn arolygiad gwasanaeth maethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) ym mis Mehefin 2025, ac i ofyn iddo gymeradwyo'r cynllun gweithredu cysylltiedig.<br><br>Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles ar 25 Medi 2025 a chafodd dderbyniad da ac mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn disgwyl am adborth gan |

| | |
|---|---|
| | y Pwyllgor.<br><br>Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o wasanaeth maethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd yr arolygiad yn dilyn arolygiad blaenorol ym mis Tachwedd 2023, pan nodwyd wyth maes fel rhai oedd angen eu gwella'n sylweddol.<br><br>Cadarnhaodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Darparwyr fod AGC wedi canfod i gynnydd gael ei wneud ym mhob maes, gyda rhai angen gwelliant pellach. Roedd cryfderau penodol yn ymwneud â diogelu, goruchwylio, a'r gefnogaeth a ddarperid i ddarpar ofalwyr. Mae'r gwasanaeth wedi elwa o arweinyddiaeth sefydlog yn ddiweddar a ffocws strategol clir ar wella canlyniadau i blant.<br><br>Fodd bynnag, ychwanegodd fod tri maes yn parhau i fod angen gwelliant pellach, sef cadernid prosesau cydweddu, cysondeb wrth adolygu a monitro gofalwyr maeth, ac ansawdd a chyflwyniad hyfforddiant i ofalwyr.<br><br>Nid oedd AGC wedi cyhoeddi unrhyw Hysbysiadau Camau Blaenoriaeth oedd yn adlewyrchu bod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud ar draws pob maes. Mae'r Awdurdod eisoes wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r meysydd hyn fel rhan o raglen ailfodelu'r gwasanaeth yn ehangach. Roedd cynllun gwella yn ei le a châi ei fonitro drwy fecanweithiau llywodraethu'r Cyngor, gan gynnwys y traciwr rheoleiddio, ac adroddir wrth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a bydd craffu cadarn yn rheolaidd ar amseroedd i'w penderfynu gan y Pwyllgor.<br><br>Cyfeiriodd aelod at Atodiad 1 a gofynnodd a allai gael rhywfaint o eglurder ac esboniad mewn perthynas â rhai o'r newidiadau a'r gwelliannau a wnaed i'r gwasanaeth cydweddu. Gofynnodd hefyd pa ddulliau a fabwysiadwyd oedd wedi arwain at wella gweithio cydweithredol o fewn y tîm.<br><br>Yn olaf, gofynnodd hefyd am ddiweddariad ar adroddiad BRAG (cyfeiriwyd ato yn Atodiad 2 yr adroddiad).<br><br>Atebodd cyflwynydd yr adroddiad a Dirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn eu tro y cwestiynau hyn.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod Pwyllgor y Cabinet ar Rianta Corfforaethol wedi ystyried adroddiad canfyddiadau AGC ac yn cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Hydref 2025 |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

## 83. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Nid oedd dim eitemau brys |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 29 Hydref 2025 |

I wylio rhagor o'r ddadl a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:16

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**